


# CYNNIG I BRYNU CYFRANDDALIADAU MENTER TY'N LLAN

HYDREF 2023

## DYDDIAD CAU: TACHWEDD 12FED, 2023

WCVA CGGC
Adra
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund
UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru
Sefydliad Cymunedol Cymru
Busnes@ ARFOR
AHF Y Gronfa Treftadaeth Bensaerniol
The Architectural Heritage Fund
Mantell Gwynedd
pub is the hub
Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru
Social Investment Cymru
IKEA
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cyngor Gwynedd Council
Yr Adran dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau
Department for Levelling Up, Housing & Communities

# MENTER TY'N LLAN

Mae Menter Ty'n Llan Cyfyngedig yn Gymdeithas Er Budd Cymunedol sydd wedi cael ei chreu gan bobl leol i sicrhau a diogelu dyfodol Tafarn Ty'n Llan yn Llandwrog, Gwynedd a'i throi'n ganolbwynt cymunedol gwirioneddol er budd y gymuned leol a'r ardal ehangach.

Yn dilyn ymgyrch lwyddiannus i godi arian trwy werthu cyfranddaliadau cymdeithasol, llwyddwyd i brynu'r dafarn a'i hail-agor. Sicrhawyd strwythur yr adeilad yn 2022 trwy waith a ariannwyd gan grantiau ac mae'r Gymdeithas yn awr yn cynnig cyfle pellach i fuddsoddi er mwyn cyflawni'r weledigaeth yn ei chyfanrwydd.

Rydym yn anelu at godi £150,000 o'r Cynnig yma i Brynu Cyfranddaliadau, sy'n agored i'r gymuned ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Fe fyddwn yn defnyddio'r arian a godir, ochr yn ochr â grantiau rydym yn gobeithio eu cael o ffynonellau eraill, i ehangu a gwella'r adnoddau ac i gyflwyno profiad cofiadwy o'n treftadaeth leol Gymreig a Chymraeg. Amcangyfrifir bod cyfanswm cost y prosiect yn £2,750,196.

Mae prynu cyfranddaliadau yn eich gwneud chi'n Aelod o'r gymdeithas ac yn rhoi llais i chi ar sut mae'n cael ei rhedeg. Mae gan bob aelod un bleidlais, waeth faint o gyfranddaliadau maen nhw'n eu prynu. Isafswm cyfranddaliad yw £100 a'r uchafswm yw £50,000.

Mae'r ddogfen hon:
- yn disgrifio'r prosiect a'i fuddion i aelodau, i'r gymuned ac i'r cyhoedd
- yn egluro natur y gymdeithas a sut y bydd y cynnig cyfranddaliadau yn gweithio
- yn cynnwys gwybodaeth ar sut i wneud cais am gyfranddaliadau

## Y CYNNIG I BRYNU CYFRANDDALIADAU

## Dyddiad Cau: 12 Tachwedd 2023

## Ein Gweledigaeth a’n Gwerthoedd

**Ein Prif Nod**

Cyfoethogi bywydau unigolion a'r gymuned trwy ddod â phobl at ei gilydd mewn ffordd sy’n dathlu a chynnal ein treftadaeth

**Ein Cyfrwng**

Prynu, addasu a chynnal tafarn a bwyty Ty'n Llan fel man cyfarfod sy'n eiddo i'r gymuned

**Ein Dulliau Gweithredu**

- Darparu lleoliad ac adnodd sy'n hyblyg, deniadol a chroesawgar i bob aelod o'r gymuned
- Dathlu ein treftadaeth yn weledol a thrwy’r gweithgareddau rydym yn eu hyrwyddo
- Cymryd camau pendant i ehangu nifer ac ystod y rhai sy’n cymryd rhan
- Darparu bwyd, diod a llety o ansawdd deniadol am bris teg
- Sicrhau bod Ty’n Llan ar gael ac yn hygyrch i ddiwallu anghenion y gymuned
- Creu cyfleoedd i wirfoddoli
- Bod yn gyflogwr teg
- Creu cyfleoedd profiad gwaith a meithrin sgiliau
- Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg
- Parchu'r amgylchedd
- Gwarchod treftadaeth bensaernïol Ty'n Llan
- Rhedeg busnes effeithlon a chystadleuol

**Ein Gwerthoedd**

- Croesawgar – *y lle a'i bobl*
- Cynhwysol - *drws agored i bawb yn ddiwahân*
- Gweithgar a thrylwyr – *ym mhopeth a wnawn*
- Diwyd a gonest – *mewn gair a gweithred*
- Teg – *wrth ymwneud â'n gilydd ac â'r byd*

## Menter Gymunedol

Mae Cymdeithas Budd Cymunedol yn fath arbennig o gorff busnes sy'n eiddo i'r gymuned leol ac yn cael ei rhedeg er ei budd, yn hytrach nag er mwyn elw preifat.

Wrth brynu Ty'n Llan yn enw'r gymuned gosodwyd 'clo asedol' arno fel na all gael ei werthu er elw – dim ond er budd y gymuned.

Mae pentref Llandwrog yn nodedig o ran ei gymeriad pensaernïol a'i dreftadaeth ddiwylliannol, gyda Thy'n Llan yn sefyll yn ei ganol. Mae'n ganolfan gref i'r iaith Gymraeg. Mae gwarchod a chynyddu ymwybyddiaeth o nodweddion y dreftaeth tra'n hyrwyddo diwylliant bywiog Cymreig a chroesawgar yn amcanion craidd i'r fenter.

Ein nod yw gweld Ty'n Llan yn gwireddu'n llawn y weledigaeth o fod yn dafarn, bwyty, caffi a chanolbwynt gweithredol ar gyfer pob math o wasanaethau a gweithgareddau cymunedol. Wrth wneud hynny byddwn yn lleihau teimladau o unigrwydd ac arwahanrwydd ac yn creu canolbwynt egniol i ymwneud cymdeithasol o bob math.

## Y Buddion

- Darparu gwasanaethau amrywiol, gan gynnwys tafarn, caffi a bwyty, i'r pentref ac i ymwelwyr
- Darparu lle i gyfarfod â ffrindiau a chymdogion
- Hyrwyddo iechyd a lles trwy greu cyfleoedd i ddod â phobl ynghyd
- Cynnig canolbwynt ar gyfer gwybodaeth am ddigwyddiadau cymunedol a materion lleol
- Diogelu a gwarchod ein hanes a'n treftadaeth unigryw
- Cyflwyno profiad cofiadwy o dreftadaeth leol a Chymreig i bob ymwelydd
- Cynnig cyfleusterau ar gyfer grwpiau diddordeb arbennig o bob math
- Hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg
- Hyrwyddo twristiaeth a rhoi hwb i'r economi leol
- Cefnogi busnesau lleol a hyrwyddo menter
- Hyrwyddo cynaliadwyedd a diogelu'r amgylchedd trwy warchod adeilad hanesyddol mewn ffordd gymwys, a gan sicrhau ei effeithlonrwydd
- Creu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli
- Hyrwyddo hyfforddiant a datblygu sgiliau
- Creu cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol
- Hyrwyddo gwaith rhwng cenedlaethau
- Gweithio mewn partneriaeth â'r ysgol leol a sefydliadau eraill i gynnwys plant a phobl ifanc
- Ysbrydoli eraill i gymryd perchnogaeth ac adfywio asedau lleol

## Y Cefndir i'r Cynnig Hwn

Ddwy flynedd a hanner yn ôl, ar ôl bod ar gau am bedair blynedd, rhoddwyd Ty'n Llan ar y farchnad. Yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus a chefnogaeth gref gan y gymuned fe lansiwyd apêl i achub y dafarn trwy godi arian i'w phrynu gan y gymuned. Roedden ni'n llwyddiannus! Diolch i gefnogaeth 1013 o unigolion, fe godwyd £463,700 ac fe brynwyd yr adeilad ym Mehefin 2021.

Ers Rhagfyr 2021, mae'r dafarn wedi bod ar agor unwaith eto; dechreuwyd gweini bwyd yn haf 2022, ac mae llu o gymdeithasau a chlybiau yn cyfarfod yno. Mae dros 50 o bobl yn cynnig help gwirfoddol yn rheolaidd a 30 arall yn gwneud hynny'n achlysurol. Mae yna deimlad cyffredinol bod achub Ty'n Llan wedi trawsnewid bywyd y pentref a bod yr holl ymdrechion wedi llwyddo i wireddu ein hamcan o 'ddod â phobl ynghyd'.

Yn awr rydym yn wynebu cam pwysig iawn arall yn yr ymdrech i sicrhau dyfodol hir-dymor Ty'n Llan fel calon fywiog ein cymuned. Rydan ni unwaith eto yn troi at y cyhoedd ac at gefnogwyr gyda gwahoddiad pellach i fuddsoddi yn y Fenter.

O’r cychwyn, roedden ni’n sylweddoli bod angen gwella’r adnoddau oedd ar gael yn Ty’n Llan yn ddirfawr. Yn bennaf roedd hyn er mwyn creu gofod addas ar gyfer gweithgareddau a lletygarwch. Ein hamcan wrth gwrs yw i’r fenter fod yn hunangynhaliol ac felly mae angen hefyd sicrhau ffrydiau incwm amrywiol a pharhaol.

Mae yna reswm arall, sef ein bod yn benderfynol y bydd Ty’n Llan yn cynnig profiad unigryw, i bobl leol ac i ymwelwyr, o’r hyn y gall tafarn Gymreig fod – yn ganolfan fyrlymus sy’n ymfalchio yn ei threftadaeth gyfoethog ac sydd yn ei chyflwyno i’r byd mewn modd cofiadwy a chroesawgar. Mae ein cynlluniau ar gyfer gwella ac ehangu’r adeilad yn seiliedig ar gyflawni’r amcanion yna.

Wrth gychwyn ar y siwrne honno, y cam cyntaf oedd sicrhau bod strwythur yr adeilad yn ddiogel. Roedd yr adeilad rhestredig angen llawer o sylw – yn bennaf roedd rhaid rhoi to newydd arno, yn ogystal â phwyntio’r waliau a thrin yr holl ffenestri – ac fe lwyddwyd i ddenu cefnogaeth gan nifer o gyrff ariannu ar gyfer hyn. Rhaid nodi’n benodol, gyda diolch anferth, gefnogaeth Cronfa Cyfleodd Cymunedol Llywodraeth y DU (COF), Rhaglen Adnoddau Cymunedol Llywodraeth Cymru (CFP) a Chronfa Datblygu Asedau Cymunedol (CADF) yr UE/WCVA.

Ond mae’r gwaith manwl mae’r pensaer ac arbenigwyr eraill wedi ei wneud ar ein cynlluniau yn ddiweddar wedi dangos bod cost eu cyflawni nhw yn mynd i fod yn llawer uwch na’r hyn oedd wedi ei amcangyfrif. Yn anffodus mae costau adeiladu wedi parhau i gynyddu’n ddifrifol bob blwyddyn. Fodd bynnag, dydan ni ddim am roi’r gorau i’r weledigaeth wreiddiol, hir-dymor honno ac mae’r gwaith cynllunio a chostio manwl, a’r gwaith o chwilio am gefnogaeth ariannol pellach, wedi mynd yn ei flaen. Yn ddiweddar sicrhawyd caniatad cynllunio. Yn y cyfamser mae’r busnes presennol wedi datblygu’n sylweddol yn nwylo’r tim brwdfrydig sy’n gweithio yno o ddydd i ddydd.

Y canlyniad ydi ein bod wedi llwyddo i ddenu cefnogaeth gan nifer o gynlluniau grant eraill, tuag at wahanol agweddau ar y cynllun. Mae yna £500,000 o arian Cynllun Ffyniant Cyffredinol Llywodraeth y DU wedi ei glustnodi ar gyfer darparu llofftydd ac ar gyfer cegin newydd. Bydd cynllun Arfor (Cyngor Gwynedd ar ran Llywodraeth Cymru) yn rhoi hwb mawr i’n gwaith arlwyo wrth roi cefnogaeth ar gyfer staffio ac offer newydd.

Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cyfrannu dros £160,000 eleni i ganiatau i ni ddatblygu ein cynlluniau pensaernïol a’n cynllun cyflwyno treftadaeth. Ym mis Awst fe wnaethon ni gyflwyno ein cais am £1.5m i’r Gronfa hon ar gyfer cyflenwi’r cynllun llawn. Bydd ein cais yn cael ei drafod rhwng rwan a diwedd Tachwedd, pan y disgwylir i Banel y Gronfa ddod i benderfyniad. Yn ystod yr un cyfnod byddwn yn cyflwyno cais i Gronfa *Pawb a’i Le* (y Loteri Genedlaethol), sydd ag amserlen debyg dan sylw ar gyfer penderfynu.

Mae ambell i gais arall yn cael ei baratoi hefyd ac os bydd rhain i gyd yn llwyddo, fe ddown yn agos iawn at sicrhau’r holl arian i ganiatau i’r Cynllun cyfan gael ei weithredu fel un prosiect. Byddai hynny’n llawer mwy effeithiol na gwasgaru’r gwaith dros gyfnod hir ac yn golygu mai dim ond am un cyfnod y bydd yn rhaid cau’r dafarn. Ac wrth gwrs mae’n golygu y byddai’r gwelliannau a’r adnoddau newydd i gyd ar gael i’w defnyddio’n gynt.

Fel rhan o’r ymdrech eithriadol hon i drawsnewid ein tafarn a’n cymuned er gwell, mae gennym angen troi atoch chi, ein cefnogwyr, unwaith eto. Er y byddai’r grantiau’n dod â ni’n agos at y targed, mae’r Cynllun Busnes yn dangos bod angen codi rhywfaint o arian eto gan y gymuned a’i chefnogwyr. Yn ein ceisiadau grant rydym wedi dweud wrth y cyrff sy’n ariannu mai dyma yw ein bwriad. Felly rydym rwan yn cynnig cyfle arall i chi a phawb arall i gefnogi’r freuddwyd trwy fuddsoddi mewn cyfranddaliadau cymunedol – rhai ohonoch am y tro cyntaf, eraill efallai fel ychwanegiad i’ch buddsoddiad presennol.

Mae’r telerau yr un fath a’r cynnig cyntaf, ac maent wedi eu rhestru yn nes ymlaen yn y ddogfen yma. Bydd y siârs yma felly yn sefyll yn hollol gyfartal o ran eu hawliau gyda’r rhai cyntaf.

Ein targed y tro cyntaf oedd £400,000. Dydyn ni ddim am fod lawn mor uchelgeisiol y tro hwn, ond fel y gwelwch o’r Cynllun Busnes, mae gofyn i ni gyfrannu £250,000 o’n cyllid ein hunain tuag at gyflawni’r cynllun. Rydym yn rhagweld y bydd gennym £100,000 yn dal yn ein coffrau yn dilyn yr ymgyrch codi arian gwreiddiol felly anelu rydan ni at godi £150,000 pellach trwy’r Cynnig yma.

Fedrwch chi ein helpu?! Bydd pob buddsoddiad, bach neu fawr, yn dod â ni yn nes at y nôd.

Rydan ni'n lawnsio'r Cynnig hwn yn ein Cyfarfod Blynyddol ar 26 Medi 2023 a'r dyddiad cau yw 12 Tachwedd 2023.

## Y Cynllun Busnes

Adolygwyd y Cynllun Busnes gwreiddiol yn llwyr yn sgîl dwy flynedd o fasnachu ac yng ngoleuni'r rhagolygon ar gyfer costau llawn y Prosiect cyfan. Maent yn cynnwys rhagolygon ariannol masnachu, ynghyd â chostau cyflawni'r prosiect, am 5 mlynedd, o Ebrill 2023, gyda rhagolwg llif arian o Awst 2023 ymlaen. Gallwch lawrlwytho'r dogfennau o'n gwefan - tynllan.cymru. Gellir cael copi ysgrifenedig ar gais oddi wrth Menter Ty'n Llan Cyf, 8 Beddgwenan, Llandwrog LL54 5LL.

Ein nôd yw codi digon o arian i ganiatáu ailddatblygu'r safle presennol i gynnwys y canlynol:

- Adnewyddu ac ailfodelu'r tu mewn yn llwyr, er mwyn gwneud y defnydd mwyaf cynhyrchiol o'r gofod
- Estyniad yn y cefn gyda ffenestri'n edrych i'r de tuag at yr Eifl, i'w ddefnyddio'n bennaf fel man bwyta a 'stafell gymunedol ar gyfer digwyddiau mwy
- Pum ystafell wely *en-suite* ar y llawr cyntaf
- Ystafell amlbwrpas sydd ar gael i'w llogi am dâl rhesymol gan gymdeithasau a digwyddiadau preifat
- Ardal barcio newydd gyda mannau parcio anabl a phwyntiau gwefru cerbydau a beiciau trydan
- Gardd ddeniadol sy'n croesawu teuluoedd
- Dehongliad treftadaeth sy'n rhoi profiad cyfoethog i ymwelwyr
- Rhaglen o weithgareddau treftadaeth a fydd yn synnu ac yn ehangu gorwelion

Dyma'r canlyniadau masnachu hyd yma a'r rhagolygon ariannol ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r pedair blynedd nesaf (£):

| | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/27 | 27/28 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trosiant* | 44,347 | 221,872 | 564,435 | 581,635 | 763,469 | 803,473 | 784,923 |
| Elw (colled) | (4,165) | (9,031) | 3,878 | (28,916) | 54,954 | 75,935 | 110,283 |

*(gan gynnwys grantiau refeniw ond heb gynnwys grantiau cyfalaf)

## Beth yw sail y ffigyrau yma?

Roedd y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 yn cynnwys cyfnod sefydlu'r Gymdeithas, y cynnig cyfranddaliadau a phrynu'r eiddo, ynghyd â 3 mis o fasnachu cychwynnol. Nid yn annisgwyl gwnaed colled bychan o £4,165.

Yn 2022/23 yr her oedd ymateb i'r galw trwy ehangu'r busnes, yn bennaf trwy agor y gegin a gweini bwyd, a hynny tra roedd y gwaith adeiladu yn mynd yn ei flaen. Bu tipyn o newid staff ac fe gafwyd codiad annisgwyl mawr mewn pris ynni. Er hynny, cynyddodd trosiant yn sylweddol ac nid yw'r golled fasnachu o £9,031 yn cymryd sylw o'r grantiau cyfalaf o £560,000 a dderbyniwyd i wella'r adeilad. Ond mae'r ffigyrau hanesyddol yma yn tanlinellu pa mor bwysig yw cael incwm ychwanegol o wahanol ffynonellau i gefnogi'r gweithgareddau cymdeithasol ac felly pa mor bwysig fydd hi i sicrhau fod yr adnoddau ychwanegol sydd dan sylw yn y cynllun yma yn cael eu gwireddu.

Mae'r flwyddyn gyfredol (2023/24) wedi gweld gwelliannau a buddsoddiad pellach mewn offer arlwyo a staff, gyda chefnogaeth grant gan Gyngor Gwynedd o dan gynllun Arfor – Cymunedau Mentrus ac mae'r ochr fasnachol wedi parhau i dyfu.

Mae'r Cynllun Busnes yma'n adlewyrchu'r profiad masnachu hwn ac yn gwneud tybiaethau nghylch y twf y credwn fydd yn digwydd o ganlyniad i'r gwelliannau y bydd y Prosiect yn eu cyflawni.

Rydym yn amcanu y bydd gwaith adeiladu ac adnewyddu yn dechrau ym mis Ionawr 2024 ac y bydd angen cau'r safle a'r busnes am gyfnod o 4 mis. Yn ystod y cyfnod hwn bydd ein staff contract yn cael eu cadw a'u hadleoli cyn belled ag y bo modd, gyda gwyliau a hyfforddiant yn rhan o'r gymysgedd. Mae darparu ar gyfer hyn yn rhan o'r drafodaeth ariannol gyda Chronfa'r Loteri Treftadaeth.

Y nôd fydd cael yr ardaloedd cyhoeddus presennol yn barod i'w hailagor erbyn Pasg 2024 gyda gweddill y datblygiadau yn cael eu cwblhau erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2024/25. Tybir y bydd cegin dros dro yn cael ei llogi o fis Mai tan fis Awst gyda'r gegin newydd ar gael ym mis Medi. Dylai'r ystafelloedd gwely fod yn barod erbyn Ebrill 2025 fan bellaf. Mae'r rhagolygon ariannol ar gyfer 2024/25 wedi'u modelu ar sail codiad bach i'r lefelau masnachu presennol, llai y costau cau, a dydi'r gwelliant i'r ffigyrau masnachu o ganlyniad i'r cyfleusterau newydd ddim yn cael ei ddangos tan fis Ebrill 2025.

Mae costau staff yn 2026/7 a 2027/8 yn dangos bod Swyddog Treftadaeth Gymunedol a Rheolwr Cynorthwyol yn parhau i gael eu cyflogi y tu hwnt i'r cyfnodau y bydd cyllid grant yn cael ei ddefnyddio i'w cefnogi. Rydyn ni'n tybio y bydd swydd y Rheolwr Prosiect yn parhau tan ddiwedd Mehefin 2026 – h.y. tri mis ar ôl i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau.

Mae'r Cynllun Busnes yn rhagdybio y bydd ein hymdrechion i godi arian, trwy gyfuniad o werthu cyfranddaliadau ac ennill grantiau, yn llwyddiannus. Os na fyddan nhw, bydd y cynllun yn cael ei dorri nôl, a bydd gwariant yn cael ei ganolbwyntio ar yr elfennau hynny sydd wedi eu clustnodi mewn perthynas â grantiau penodol.

Bydd unrhyw elw a gynhyrchir o fasnachu yn cael ei ddefnyddio i dalu am y canlynol, yn y drefn flaenoriaeth yma :

- Unrhyw rwymedigaethau treth gorfforaeth a Threth ar Werth
- Llog ar fenthyciadau
- Ad-dalu benthyciadau
- Cynnal a chadw'r adeilad
- Gwella a datblygu'r cyfleusterau
- Llog ar gyfalaf cyfranddaliadau
- Hwyluso prynu cyfranddaliadau yn ôl o bryd i'w gilydd

Byddwn yn anelu at adeiladu cronfa wrth gefn ar gyfer costau cynnal a chadw tymor hir a chostau annisgwyl eraill.

## Y Pwyllgor Rheoli

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys hyd at 15 o bobl, a'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am ethol ei swyddogion.

Dyma aelodau presennol y Pwyllgor :

**Caryl Elin Lewis** (Cadeirydd) – Perchennog-gyfarwyddwr Cwmni CELyn Cyf; Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Llandwrog a Phwyllgor Pentref Llandwrog ac aelod sefydlu Merched Mentrus Môn a Gwynedd. Cyn hynny - swyddi uwch gyda Chyngor Gwynedd; Cyfarwyddwr Mudiad Meithrin Cymru; ymgynghorydd cyswllt i'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus ac Iechyd Meddwl Cymru.

**Catrin Huws** (Is-gadeirydd**)** - Rheolwr cynhyrchu rhaglenni Cymraeg a chynnwys ar-lein gyda'r BBC. Yn gyfrifol am gydlynu sawl agwedd ar brosiectau darlledu cenedlaethol.

**Carys Aaron** (Ysgrifennydd) - Ymddiriedolwr 'Sistema Cymru - Codi'r To'; cyfarwyddwr Adra Lodge Cyf hostel a bwyty. Cyn Reolwr Busnes a chyfarwyddwr Ffilmiau'r Nant Cyf; darlithydd y gyfraith Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Bangor. Cyn ysgrifennydd Galeri Caernarfon Cyf a Crochan Celf; cyn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Syr Hugh Owen.

**Huw Jones** (Trysorydd) - Cadeirydd Portmeirion Cyf ac Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn. Cyn Gadeirydd a Phrif Weithredwr S4C, cyd-sylfaenydd Sain, Barcud a Teledu'r Tir Glas ac Ymddiriedolwr RSPB a'r Gymdeithas Deledu Frenhinol.

**Angharad Gwyn** - Perchennog-gyfarwyddwr cwmni manwerthu Cymreig Adra; Arweinydd a chyd-sylfaenydd Clwb Gwawr Llandwrog; cyn gadeirydd Cyfeillion yr Ysgol, a Grŵp Ti a Fi y pentref; aelod o Gyngor Coleg Glynllifon a model rôl busnes gyda Syniadau Mawr Cymru.

**Ian Kenrick Hughes** - Rheolwr Busnes Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, wedi gweithio mewn llywodraeth leol am dros 35 mlynedd. Cyn-aelod o Lywodraethwyr Ysgol Syr Hugh Owen ac Ysgol Llandwrog.

**Bethan Mary Jones** - Actores broffesiynol sydd wedi byw yn Llandwrog ers 25 mlynedd ac wedi magu 4 o blant. Cyn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Llandwrog. Yn berchen ar fusnes llety hunanarlwyo.

**Sion Huw Jones** - Ar hyn o bryd yn gweithio i M-Sparc, gan arwain eu huchelgais i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i fynd ar drywydd eu cenhadaeth o danio'r economi ac arloesi ar gyfer yr amgylchedd i sicrhau Cymru gynaladwy. Cyn Athro yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon a pherchennog Hairline Inc GC.

**Elfyn Owen -** Prif Swyddog elusen leol gyda chefndir yn y maes adeiladu. Yn arwain ar ddatblygu gwasanaethau tai i bobl hŷn a bregus. Profiad helaeth ar lywodraethu; rheoli risgiau, rheolaeth ariannol, iechyd a diogelwch, a chefnogi staff. Ymddiriedolwr ar Ganolfan Bro Llanwnda, cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Felinwnda, a chadeirydd Pwyllgor Adeiladau Capel Salem, Caernarfon. Yn gwirfoddoli efo'r Fenter wrth helpu i gynnal y seler yn Ty'n Llan.

**Marnel Pritchard –** Cyn-athrawes; Cadeirydd Cyngor Cymuned Llandwrog; aelod gweithgar o nifer o grwpiau Ty'n Llan gan gynnwys y Grŵp Garddio a'r Grŵp Bwyd a Diod. Gwirfoddolwr rheolaidd trwy helpu yn y gegin, glanhau pan fo angen a bod ar gael i agor y drws i wahanol grwpiau.

**Wyn Roberts** – Perchennog-gyfarwyddwr Marchnata AQUA Cyf sy'n arbenigo mewn marchnata digidol a'r sector twristiaeth. Cyfarwyddwr Galeri Caernarfon Cyf, Hwb Eryri Cyf, Datblygiadau Egni Gwledig (DEG) a Cooliture Cyf.

**Sioned Williams** – Pennaeth Adran Datblygu'r Economi a'r Gymuned, Cyngor Gwynedd, sy'n gyfrifol am ddatblygu economaidd, twristiaeth, digwyddiadau, rhaglenni adfywio, sgiliau a chyflogaeth. Cynllunydd tref cymwysedig, yn cefnogi mentrau cymdeithasol ers 25 mlynedd. Aelod o wahanol fyrddau rheoli; rolau cynghori gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Bwrdd Menter Eryri; cyn gadeirydd Bwrdd Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru; Cadeirydd Chwaraeon Gogledd Cymru.

Os bydd aelod o'r Pwyllgor neu o'u teuluoedd agos yn dymuno mynd i berthynas fasnachol â'r Gymdeithas, gofynnir iddynt gamu i lawr o'r Pwyllgor er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau.

## Sut y mae ein Cwmni Er Budd Cymunedol yn Gweithio?

Nid prynu tafarn yw'r unig beth dan sylw fan hyn - mae'n ymwneud yn bennaf â helpu i gynnal y gymuned, cyfoethogi ei bywyd cymdeithasol a rhannu ei chryfder diwylliannol mor eang â phosibl. Bydd yr enillion ariannol yn gyfyng ond efallai y byddwch yn ennill llog ac fe fydd eich atebolrwydd yn gyfyngedig.

Un aelod, un bleidlais

Mae'n rheol allweddol fod gan bob Aelod un bleidlais, waeth faint o gyfranddaliadau y maen' nhw'n berchen arnynt.

Isafswm cyfranddaliad yw 1 gyfran. Mae i bob cyfran werth o £100. Uchafswm y cyfranddaliadau y gellir eu dal yw 500. Rhaid i aelodau fod dros 16 oed a rhaid talu am gyfranddaliadau yn llawn wrth wneud cais.

## Rheolau a Llywodraethiant

Mae'r Gymdeithas wedi mabwysiadu y Rheolau enghreifftiol ar gyfer Cymdeithasau Budd Cymunedol a luniwyd gan Sefydliad Plunkett. Mae'r Rheolau hyn yn amlinellu sut y caiff y Gymdeithas ei pherchnogi, ei threfnu a'i llywodraethu. Gellir gweld copi ar ein gwefan.

Cyfrifoldeb y Pwyllgor Rheoli yw rheoli holl faterion y fenter, ac aelodau'r Pwyllgor sy'n atebol yn gyfreithiol am bopeth a wneir yn enw'r Gymdeithas. Aelodau'r Gymdeithas sydd yn ethol aelodau'r Pwyllgor Rheoli a'r Aelodau fydd yn cymeradwyo sail a chyfradd talu unrhyw log ar gyfranddaliadau. Y Pwyllgor Rheoli sy'n ethol y swyddogion.

Bydd aelodau etholedig y Pwyllgor Rheoli yn dal eu swyddi am gyfnod o dair blynedd gan ymddeol yn raddol dros y tair blynedd yn unol â Rheolau'r Gymdeithas. Bydd aelodau'r Pwyllgor Rheoli yn cael eu hethol gan Aelodau'r Gymdeithas. Bydd gan bob Aelod hawl i fynychu'r Cyfarfod Blynyddol ac i sefyll i'w h/ethol i'r Pwyllgor Rheoli.

Yn ogystal â'r Pwyllgor Rheoli mae yna groeso i wirfoddolwyr gyfrannu at y gwaith o gynnal y Fenter. Mae yna grwpiau gwahanol yn canolbwyntio ar yr Adeiladau, Bwyd a Diod, yr Ardd, Gweithgareddau a Marchnata.

## Taliadau llog

Unwaith y byddwn wedi cwblhau tair blynedd gyflawn o fasnachu, ac os yw'r busnes yn rhedeg yn llwyddiannus, rydym yn gobeithio talu llog blynyddol ar gyfranddaliadau aelodau o oddeutu 2%. Pob blwyddyn bydd y Pwyllgor Rheoli yn cyflwyno argymhelliad ynglŷn â thaliadau llog ar gyfranddaliadau i'w gymeradwyo gan Gyfarfod Blynyddol yr Aelodau.

## Ailbrynu Cyfranddaliadau

Ni fydd yn bosibl gwerthu na throsglwyddo eich cyfranddaliadau, ag eithrio ar farwolaeth neu fethdaliad. Yr unig ffordd o gael gwerth eich buddsoddiad yn ôl fydd trwy wneud cais i'r Gymdeithas ei hun eu prynu nôl am eu gwerth gwreiddiol.

Mae rheolau'r Gymdeithas yn caniatáu'r posibilrwydd o dynnu cyfalaf eich cyfranddaliadau allan ar ôl tair blynedd. Dim ond o'r elw y bydd y Gymdeithas yn ei wneud wrth fasnachu, neu wrth werthu cyfranddaliadau newydd, y gellir gwneud hynny. Bydd angen i chi roi o leiaf dri mis o rybudd o'ch dymuniad i dynnu'n ôl. Nid ydym yn rhagweld y gallwn ganiatáu tynnu arian yn ôl cyn 2027. Pan fydd yn bosibl ystyried ailbrynu cyfranddaliadau, bydd y Pwyllgor yn nodi meini prawf ac uchafsymiau blynyddol priodol. Gall y Pwyllgor benderfynu peidio â chytuno i ailbrynu os yw hynny'n groes i fuddiannau tymor hir y Gymdeithas, yr angen i gynnal cronfeydd wrth gefn digonol, a'r ymrwymiad i'r gymuned.

## Clo Asedau

Mae Rheolau'r Gymdeithas yn cynnwys clo asedau sy'n creu rhwymedigaeth gyfreithiol. Mae hyn yn golygu, ar ôl iddi dalu llog i gyfranddalwyr ac ad-dalu unrhyw gyfalaf sy'n cael ei dynnu allan, fod yn rhaid i unrhyw enillion sydd yn weddill gael eu hail-fuddsoddi yn y busnes neu eu defnyddio er budd y gymuned leol neu at achos elusennol neu gymunedol arall. Mae hyn yn golygu, pe bai'r Gymdeithas yn cau ond bod yr adeilad wedi cynyddu yn ei werth, y byddai'n bosibl gwerthu'r asedau a dychwelyd cyfalaf i aelodau hyd at werth y buddsoddiadau gwreiddiol, ond na fyddai'n bosibl dosbarthu unrhyw werth ychwanegol yn y ffordd yma.

## Tâl

Ni fydd cyfarwyddwyr ac aelodau yn elwa'n ariannol mewn unrhyw ffordd o weithgareddau'r Gymdeithas, heblaw trwy gymryd rhan yng nghyfranddaliadau a chynigion benthyciad y Gymdeithas.

## Manteision Treth

Wrth estyn gwahoddiad i gymryd rhan yn y Cynnig Cyfranddaliadau gwreiddiol, roedd yn bosib i fuddsoddwyr fanteisio ar y Cynllun Rhyddhad Treth Buddsoddi Cymdeithasol (SITR) ac arbed hyd at 30% o dreth ar werth eu buddsoddiad. Yn anffodus, mae’r Cynllun yma wedi cael ei ddirwyn i ben gan y Llywodraeth, felly nid yw’n bosib cynnig y fantais yma y tro hwn.

Efallai y bydd eich buddsoddiad yng nghyfranddaliadau’r Gymdeithas yn gymwys i gael rhyddhad busnes o dan reolau treth etifeddiant.

## Sut i wneud cais am Gyfranddaliadau

Os ydych chi am ddod yn aelod o Menter Ty’n Llan Cyfyngedig a buddsoddi yn ein menter, meu os ydych am ail-fuddsoddi, cwblhewch y Ffurflen Fuddsoddi un ai arlein ar tynllan.cymru neu trwy ei dychwelyd i'r cyfeiriad canlynol: Menter Ty'n Llan, Bodryn, Llandwrog, Caernarfon LL54 5LL.

Os y byddwch am wneud cais am gyfranddaliadau yn enw plentyn o dan 16 oed, byddwch yn ymwybodol y bydd y cyfranddaliadau’n cael eu trin fel rhai sydd wedi’u prynu ond heb eu dyroddi, ac fe gânt eu cadw mewn ymddiriedolaeth gan y Gymdeithas hyd nes i’r plentyn gyrraedd llawn oed.

## Rhybudd Pwysig

Rhaid i chi ddarllen y pwyntiau canlynol am y cynnig cyfranddaliadau cyn penderfynu a ydych chi'n dymuno cymryd rhan

I. Pan fyddwch yn ystyried prynu cyfranddaliadau mae'n hanfodol eich bod yn deall mai buddsoddiad yn ein cymuned yw hwn, gyda'r bwriad o greu ased diogel a pharhaol i ni i gyd.

II. Y bwriad yw adeiladu ar ein seiliau cymdeithasol a helpu i greu cymuned ffyniannus a chynaliadwy. Nid yw'n fuddsoddiad confensiynol ac ni ddylech ddisgwyl enillion ariannol uchel nac uniongyrchol. Mae gwybodaeth lawn wedi'i nodi yn rheolau'r gymdeithas sydd ar gael ar ein gwefan.

Sylwch:

III. Ni all gwerth cyfranddaliadau gynyddu y tu hwnt i'w gwerth gwreiddiol. Dylech fod yn ymwybodol y gallai gwerth cyfranddaliadau ostwng os yw'r busnes yn aflwyddiannus.

IV. Fel buddsoddwr mae eich atebolrwydd wedi'i gyfyngu i werth eich cyfranddaliadau. Pe bai’r busnes yn methu, sy’n anhebygol, ni fyddai gennych unrhyw atebolrwydd pellach.

V. Ar hyn o bryd mae'r Gymdeithas yn bwriadu ystyried talu llog ar gyfranddaliadau ar ôl i'r drydedd flwyddyn o fasnachu gael ei chwblhau a galluogi cyfranddalwyr i dynnu buddsoddiadau yn ôl ar ôl y bumed flwyddyn. Mae rheolau'r Gymdeithas yn caniatáu i daliadau llog gael eu hatal os nad yw perfformiad ariannol y Gymdeithas yn cyfiawnhau taliad o'r fath. Mae rhagamcanion ariannol manwl ar gyfer perfformiad y Gymdeithas wedi'u cynnwys yn y Cynllun Busnes.

VI. Yr unig ffordd y gall rhywun adennill ei fuddsoddiadau (p'un ai yw hynny'r swm cychwynnol neu unrhyw werth gostyngedig), onibai am daliadau llog neu ad-daliadau cyffredinol, yw trwy roi rhybudd i’r Gymdeithas o ddymuniad i dynnu buddsoddiad yn ôl. Ni all hyn ddigwydd yn ystod y pum mlynedd gyntaf wedi dyddiad cyhoeddiad y cyfranddaliadau hyn.

VII. Mae'r amodau penodol ar gyfer tynnu'n ôl yn cynnwys:

a. Rhaid i arian a dynnir yn ôl gael ei ariannu o wargedion masnachu neu gyfalaf cyfranddaliadau newydd. Maent yn ddewisol, gan fod yn ddarostyngedig i foddhad y Pwyllgor Rheoli bod tynnu'n ôl yn gyson â buddiannau tymor hir y Gymdeithas.

b. Mae'r cyfanswm ad-daladwy bob blwyddyn wedi'i gyfyngu i uchafswm o 10% o werth cyfredol y cyfranddaliad.

c. Rhaid rhoi rhybudd o dri mis.

VIII. Bydd yr holl arian a fuddsoddir yn y cynnig cyfranddaliadau yma’n cael ei ddal yng nghyfrif banc Menter Ty’n Llan Cyfyngedig a'i ddefnyddio yn unig at ddibenion adnewyddu ac ymestyn cyfleusterau tafarn Ty’n Llan, cyfalaf gweithio a chostau fydd yn codi wrth weinyddu'r Gymdeithas.

**IX. Mae Menter Ty’n Llan Cyfyngedig wedi'i chofrestru fel cymdeithas gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), ond nid yw'r FCA yn rheoleiddio gwerthu cyfranddaliadau cymunedol. Fel llawer o fuddsoddiadau, mae cyfranddaliadau cymunedol yn agored i risg a gallech golli rhywfaint neu'r cyfan o'r arian rydych yn ei fuddsoddi. Yn wahanol i gyfrifon cadw gyda banciau stryd fawr, nid yw’r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol yn cynnwys cyfranddaliadau cymunedol, ac nid oes unrhyw hawl i gwyno i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. Os ydych chi'n ystyried buddsoddi swm sylweddol yna efallai yr hoffech chi ofyn am gyngor ariannol annibynnol cyn gwneud hynny.**

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect, cysylltwch â ni trwy ein gwefan: tynllan.cymru

**FFURFLEN GAIS I FUDDSODDI A DOD YN AELOD:**

Enw …………………………………………………………… Dyddiad ……………………………

Cyfeiriad llawn gan gynnwys côd post …………………………………………………………… .... ……………………………………… ……………………………………………………………… ……………………………………………………………… ………………………………………

Cyfeiriad ebost…………………………………………………………………………………..
Rhif (au) ffôn ……………………………………………………………………………………………
Swm yr ydych am ei fuddsoddi: (lleiafswm o £ 100, mwyafswm: £ 50000):

Ydych chi'n aelod yn barod? Ydw / Nac ydw

Ydych chi'n prynu'r cyfranddaliadau yma ar ran plentyn o dan 16 oed? Ydw / Nac ydw
Enw'r plentyn:...................................................................
Dyddiad geni'r plentyn....................................................

Ticiwch y blwch i nodi eich bod wedi darllen y ddogfen Cynnig Cyfranddaliadau yma:

**Sylwch, trwy wneud cais am gyfranddaliadau ym Menter Ty'n Llan Cyf, rydych chi'n cytuno i'r datganiad canlynol:**

Rwy'n cytuno bod fy enw, cyfeiriad, rhif (au) ffôn, cyfeiriad e-bost a nifer y cyfranddaliadau yr wyf am eu prynu yn cael eu cadw ar gronfa ddata gyfrifiadurol. Rwy'n deall y bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio (i) at ddibenion cynnal cofrestr o aelodau a darpar aelodau fel sy'n ofynnol gan reolau'r Gymdeithas Budd Cymunedol, (ii) ar gyfer cyfathrebu ag aelodau (trwy e-bost, ffôn, SMS, post ) a (iii) ar gyfer postio hysbysiadau ynghylch gweithgareddau Menter Ty'n Llan Cyfyngedig. Dim ond gyda thrydydd partïon y bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu wrth ein cefnogi i gyflawni'r gweithgareddau penodol hyn.

**Anfonwch y ffurflen hon at: siars@tynllan.cymru**
**a gwnewch drosglwyddiad arlein o'r swm rydych am ei fuddsoddi i gyfrif:**
**Menter Ty'n Llan Cyfyngedig**
**Côd: 60-83-01**
**Rhif y cyfrif: 20439554**
**gan gynnwys llinell gyntaf eich cyfeiriad fel cyfeirnod.**

**NEU**

**Anfonwch y ffurflen hon wedi'i chwblhau ynghyd â'ch siec at Menter Ty'n Llan Cyfyngedig, Bodryn, Llandwrog, Caernarfon, LL54 5LL.**

Gofynnwn yn garedig i chi anfon eich taliad arlein cyn gynted â phosibl ar ôl cyflwyno'ch ffurflen gofrestru. Bydd hyn yn hwyluso'r gwaith gweinyddol yn fawr.

Cyhoeddir derbynebau trwy e-bost lle bynnag y bo modd i leihau costau gweinyddol. Bydd tystysgrif cyfranddaliad yn cael ei anfon atoch maes o law.